WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad dilynol o drefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1398A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n briodol, yr archwilydd penodedig yw'r trydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Ian Phillips, Justine Morgan a Colin Davies dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi rhoi'r rhan fwyaf o'n hargymhellion blaenorol a'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella ar waith yn llawn neu'n rhannol, ond rydym wedi adnabod rhai cynigion pellach ar gyfer gwella i gryfhau agweddau ar drefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor.


Adroddiad cryno

Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham 4

Yr hyn a ganfuom 4

Cynigion ar gyfer Gwella 4

Adroddiad manwl

Asesiad o'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion o'n hadroddiad yn 2015 6

Asesiad o'r cynnydd yn erbyn y cynigion ar gyfer gwella o'n hadroddiad yn 2014 13

# Adroddiad cryno

## Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Fe gynhaliom ni'r adolygiad hwn i geisio sicrwydd bod gan y Cyngor drefniadau corfforaethol effeithiol ar gyfer diogelu plant. Fe wnaethom ystyried canfyddiadau'r adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2014 ar drefniadau'r Cyngor i gefnogi diogelu plant[1]. Fe wnaethom hefyd ystyried cynnydd y Cyngor o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, 'Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru' (Gorffennaf 2015)[2].

2 Fe gynhaliom ni'r adolygiad rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2019.

## Yr hyn a ganfuom

3 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A yw'r Cyngor wedi gweithredu ar yr argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella yn adroddiadau cenedlaethol a lleol yr Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd yn 2014 a 2015?

4 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: Mae'r Cyngor wedi gweithredu, neu weithredu'n rhannol, ar y rhan fwyaf o'n hargymhellion blaenorol a'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella, ond rydym wedi adnabod rhai cynigion pellach ar gyfer gwella i gryfhau agweddau ar drefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor.

## Cynigion ar gyfer Gwella

### Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi eu hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Cryfhau'r Polisi Diogelu Corfforaethol yn y ffyrdd canlynol:<br>• Darparu gwybodaeth am bynciau sydd â goblygiadau ar gyfer diogelu megis caethwasiaeth fodern, masnachu pobl, camfanteisio'n rhywiol ar blant, atal terfysgaeth a'r risg o radicaleiddio, Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a hunan-niweidio;<br>• Croesgyfeirio at Bolisi'r Cyngor ar y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS); ac |

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Trefniadau Awdurdodau Lleol i Gefnogi Diogelu Plant – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf,** Hydref 2014

[2] **Archwilydd Cyffredinol Cymru, Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru**, Gorffennaf 2015

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| | • Egluro rôl a statws y Gweithgor Diogelu Corfforaethol. |
| C2 | Cryfhau'r Gweithdrefnau Recriwtio a Dethol yn y ffyrdd canlynol:<br>• Cyfeirio at ddiogelu fel ymrwymiad allweddol yn adran agoriadol y gweithdrefnau;<br>• Gallai'r adran swydd-ddisgrifiadau gyfeirio at ddiogelu ar gyfer swyddi perthnasol;<br>• Nodi y bydd hysbysebion ar gyfer swyddi y mae'n ofynnol cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar eu cyfer yn cynnwys datganiad eglur ar ddiogelu;<br>• Gallai'r adran sefydlu gyfeirio at ddiogelu; a<br>• Dylid cyfeirio at y Polisi Diogelu Corfforaethol a'r Polisi ar y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn yr adran 'Polisïau Cysylltiedig'. |
| C3 | Dylai'r Cyngor gasglu gwybodaeth monitro contractau o holl Gyfarwyddiaethau'r Cyngor i sicrhau eu bod yn mynd ati'n gadarn i fonitro camau gweithredu sy'n gysylltiedig â diogelu. |
| C4 | Dylai'r Cyngor wella'i ddull o ran hyfforddiant diogelu yn y ffyrdd canlynol:<br>• Cyflymu'r gyfradd cydymffurfio â chwblhau ei hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu a hyfforddiant Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015;<br>• Egluro pryd y mae angen diweddaru hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu;<br>• Ystyried ffyrdd y gallai ehangu ei arlwy hyfforddiant diogelu, er enghraifft i yrwyr tacsis a'r rhai sy'n gweithio yn economi hwyr y nos;<br>• Gwella'r modd y mae'n monitro cydymffurfiaeth lle mae hyfforddiant diogelu yn y cwestiwn; ac<br>• Egluro pa mor gynnar y mae'n rhaid i ddechreuwyr newydd gwblhau'r hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu. |
| C5 | Dylai'r Cyngor ystyried cynhyrchu mesurau perfformiad (er enghraifft mewn perthynas â chydymffurfio â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) i wella'r wybodaeth am berfformiad sy'n cael ei chyflwyno gerbron pwyllgorau craffu a rhoi cymorth i fod yn dryloyw. |
| C6 | Dylai'r Gweithgor Diogelu Corfforaethol fod â throsolwg ar risgiau corfforaethol i ddiogelu ar draws y Cyngor. |

# Adroddiad manwl

## Asesiad o'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion o'n hadroddiad yn 2015

### Mae'r Cyngor wedi rhoi'r rhan fwyaf o'n hargymhellion blaenorol a'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella ar waith yn llawn neu'n rhannol, ond rydym wedi adnabod rhai cynigion pellach ar gyfer gwella i gryfhau agweddau ar drefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor

| Argymhellion o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| A1 Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu trwy wneud yr isod: | |
| • penodi uwch-swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau; | Wedi'i roi ar waith:<br>Y Prif Weithredwr sy'n cyflawni'r rôl hon. |
| • penodi aelod arweiniol dros ddiogelu; a | Wedi'i roi ar waith:<br>Arweinydd y Cyngor sy'n cyflawni'r rôl hon. |
| • dosbarthu a chyfoesi yn rheolaidd wybodaeth am y penodiadau hyn i'r holl staff a rhanddeiliaid | Wedi'i roi ar waith, ond maes ar gyfer gwella wedi'i adnabod.<br>• Mae Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor yn darparu gwybodaeth am rolau'r uwch swyddog arweiniol a'r aelod arweiniol dros ddiogelu corfforaethol. Mae dolen i'r Polisi Diogelu Corfforaethol ar fewnrwyd a gwefan y Cyngor (er nad y rhifyn diweddaraf yw'r fersiwn ar wefan y Cyngor gan ei fod wedi cael ei ddiweddaru'n ddiweddar). |

| Argymhellion o adroddiad 2015 | | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|---|
| | | • Mae disgrifiad rôl yr Arweinydd ar wefan y Cyngor yn nodi ei gyfrifoldebau am ddiogelu corfforaethol.<br>• Mae'r Cyngor wedi ein hysbysu bod sesiynau briffio corfforaethol fel rhan o'r rhaglen sefydlu'n cynnwys gwybodaeth am y rolau hyn.<br>• Mae cyfle, yn sgîl penodiad diweddar y Prif Weithredwr i rôl diogelu corfforaethol, i atgyfnerthu ymwybyddiaeth staff am y rôl hon. Er enghraifft, gallai'r tudalennau diogelu corfforaethol ar y fewnrwyd gynnwys gwybodaeth am rôl y swyddog arweiniol a'r aelod arweiniol dros ddiogelu corfforaethol, ac mae hefyd yn gyfle i sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei chyfleu'n dda i'r aelodau hynny o staff nad ydynt ar-lein. |
| A2 | Sicrhau bod polisi corfforaethol ar ddiogelu sy'n cynnwys holl wasanaethau'r cyngor er mwyn rhoi cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y cyngor | Wedi'i roi ar waith, ond cynnig ar gyfer gwella wedi'i adnabod.<br>• Mae gan y Cyngor bolisi diogelu corfforaethol ac mae'n glir ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau gyda'r eithriad canlynol a adnabuwyd:<br>– Mae gan y Cyngor Weithgor Diogelu Corfforaethol sy'n cwrdd bob hyn a hyn i drafod materion diogelu corfforaethol, er bod ei rôl a'i amodau gorchwyl yn aneglur ac er nad yw'r polisi diogelu'n crybwyll y Grŵp.<br>–<br>• Mae'r Cyngor yn cyhoeddi'r polisi diogelu corfforaethol ar ei fewnrwyd ac mae wedi amodi, yn achos yr aelodau hynny o staff sydd heb fynediad at gyfrifiadur, y bydd eu Rheolwyr yn trefnu bod nodyn briffio hawdd i'w ddarllen ar gael.<br>• Rydym wedi adnabod y gellid cryfhau'r polisi diogelu corfforaethol fel a nodir yn C1 uchod. |
| A3 | Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy: | |
| | • sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu ac Atal | Wedi'i roi ar waith, ond cynnig ar gyfer gwella wedi'i adnabod. |

| Argymhellion o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| (GDA) a chydymffurfio a pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â phlant; | • Mae gan y Cyngor bolisi ar y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n berthnasol i staff a gwirfoddolwyr.<br>• Mae angen i'r holl staff fynd trwy broses sgrinio cyn cyflogi. Nid oes gan y Cyngor lawer o wirfoddolwyr y tu allan i ysgolion, ond mewn ysgolion rhaid i wirfoddolwyr ddarparu geirdaon a chael gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.<br>• Mae gan y Cyngor Weithdrefnau Recriwtio a Dethol ond mae cyfle i'w cryfhau fel a nodir yn C2 uchod. |
| • creu system gydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau GDA; a | Wedi'i roi ar waith yn rhannol.<br>• Mae gwybodaeth am wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl staff yn cael ei chadw ar system y Cyngor, sef 'Vision'. Y tu hwnt i hynny, mae'r Cyngor yn cydnabod nad oes ganddo un system integredig a bod peth gwybodaeth yn cael ei chadw ar lefel Cyfarwyddiaethau, ac mae wedi adnabod hyn fel maes parhaus ar gyfer gwella. |
| • mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth | Wedi'i roi ar waith, gyda dau faes ar gyfer gwella wedi'u hadnabod.<br>• Mae'r Cyngor yn hyderus bod ganddo drefniadau cryf ar gyfer goruchwylio contractwyr trydydd parti. Darparodd y Cyngor enghraifft o'i drefniadau comisiynu lle mae'n gofyn, fel rhan o'r broses fonitro, am dystiolaeth o wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac o gydymffurfio â hyfforddiant ar ddiogelu.<br>• Mae'r Cyngor wedi darparu enghreifftiau cytundebol o gymalau sy'n gysylltiedig â diogelu sy'n gadarn ar y cyfan, er ein bod wedi adnabod mân welliant y gellid ei wneud trwy gyfeirio at wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yng ngeiriad contractau. Mae hyn yn oblygedig ac yn cael ei fonitro fel rhan o fonitro contractau ond gellid ei wneud ychydig bach yn fwy eglur.<br>• Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo gael gwybodaeth well gan bob Cyfarwyddiaeth i fod yn sicr bod y broses monitro contractau ar |

| Argymhellion o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | draws pob Cyfarwyddiaeth yn gwirio materion diogelu mewn modd cadarn fel rhan o fonitro contractau. |
| A4 Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy: | |
| • sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y cyngor, a'i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino; | Wedi'i roi ar waith, gyda chynigion ar gyfer gwella wedi'u hadnabod.<br>• Mae hyfforddiant diogelu'n orfodol ar gyfer yr holl staff ac mae ar gael trwy e-ddysgu neu hyfforddiant wyneb yn wyneb. Ym mis Mehefin 2019, roedd 6,142 allan o 10,563 o gyflogeion wedi cwblhau hyfforddiant diogelu. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bwlch yma ac yn dweud y bydd angen rheoli hyn yn awr gan ddefnyddio dull wedi'i dargedu.<br>• Mae'n un o ofynion Llywodraeth Cymru bod hyfforddiant ar Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn orfodol ar gyfer yr holl staff. Nid yw'r Cyngor wedi cadarnhau pa ganran o'i staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn.<br>• Yn ystod y rhaglen sefydlu, mae dechreuwyr newydd yn cael eu cyfeirio at y polisi diogelu corfforaethol ac mae'r polisi hwnnw'n rhan o'r rhestr wirio ar gyfer sefydlu. Nid yw'r Cyngor wedi cadarnhau pa mor fuan ar ôl dechrau y mae angen i ddechreuwr newydd gwblhau'r hyfforddiant diogelu gorfodol ac mae angen iddo sicrhau bod gwiriadau'n cael eu cynnal bod yr hyfforddiant wedi cael ei gwblhau.<br>• Mae'r Cyngor yn cydnabod nad oes ganddo drefniadau ar hyn o bryd sy'n nodi pryd y mae hyfforddiant diweddaru ar ddiogelu'n ofynnol.<br>• Yn 2016, cafodd disgrifiadau rôl aelodau eu diweddaru i gynnwys cyfrifoldeb am ddiogelu ac mae Cofrestr Risgiau Diogelu Corfforaethol y Cyngor yn cofnodi bod hyfforddiant wedi'i ddarparu ar gyfer yr holl aelodau yn dilyn yr etholiad llywodraeth leol yn 2017. Ar 16 Ionawr 2019, cafodd deg aelod ar hugain hyfforddiant diogelu cyn un o gyfarfodydd y Cyngor. |

| Argymhellion o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| • creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth â'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a | Heb ei roi ar waith.<br>• Mae'r Cyngor yn cydnabod nad oes ganddo gronfa ddata hygyrch ar gyfer hyfforddiant ac i gael ystadegau ar gydymffurfio rhaid iddo gynnal ymarfer cydymffurfio â llaw.<br>• Mae Cofrestr Risgiau Diogelu Corfforaethol y Cyngor yn datgan fel a ganlyn: 'Mae'r gallu i ddangos yr hyfforddiant gwirioneddol a ddarparwyd wedi gwella ers adnabod y risg hon yn wreiddiol; fodd bynnag, gellir gwella'r defnydd o ddynodwr unigryw ar gyfer pob unigolyn a gafodd yr hyfforddiant. Nid yw'r gronfa ddata a gedwir yn y Grŵp Cymuned a Phlant wastad yn cofnodi rhif cyflogai'r unigolyn, er enghraifft. O ganlyniad i hyn, nid yw'r gallu i ddefnyddio'r data hyfforddiant i dargedu meysydd yn y Cyngor lle mae angen hyfforddiant ychwanegol mor gadarn ag a ddymunir'.<br>• Mae'r Gofrestr Risgiau Diogelu Corfforaethol yn datgan hefyd: 'Gan ddibynnu sut a ble y caiff yr hyfforddiant ei ddarparu, cedwir cofnodion mewn dwy system – RCT Source a chronfa ddata yn y Grŵp Cymuned a Phlant'.<br>• Caiff gwybodaeth am hyfforddiant ei chadw mewn amryw fannau. Mae tîm datblygu'r gweithlu Gofal Cymdeithasol yn cadw gwybodaeth am wirfoddolwyr. Caiff gwybodaeth am aelodau ei chadw o fewn y Gwasanaethau Democrataidd a gall gwybodaeth am staff sydd wedi cael hyfforddiant wyneb yn wyneb gael ei chadw ar lefel Cyfarwyddiaethau.<br>• Caiff gwybodaeth am hyfforddiant e-ddysgu'r Cyngor ei chadw mewn un lle.<br>• Mae'r Gwasanaeth Addysg yn gwneud hunanwerthusiad diogelu a bydd yn archwilio pa hyfforddiant a gwblhawyd. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth sy'n cael ei chadw yn y Gyfarwyddiaeth Addysg yn cael ei chadw ar amryw daenlenni. Mae gwybodaeth am ysgolion mewn un lle a gwybodaeth am lywodraethwyr mewn lle arall. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai fod yn fwy effeithlon o ran sut y mae'n cadw'r wybodaeth hon. Nid yw gwybodaeth am gydymffurfiaeth gwirfoddolwyr |

| Argymhellion o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | mewn ysgolion â hyfforddiant yn cael ei chasglu'n ganolog, er y gall gael ei phrofi fel rhan o ymweliadau Archwilio Mewnol. |
| • mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu. | Wedi'i roi ar waith:<br>Mae'r Cyngor wedi darparu enghreifftiau cytundebol sy'n mandadu'r gofyniad hwn. |
| A6[3] Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y cyngor ynglŷn â'r canlynol:<br>• meincnodi a chymharu ag eraill;<br>• casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio GDA;<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o | Wedi'i roi ar waith yn rhannol, gyda maes ar gyfer gwella wedi'i adnabod.<br>• Cyflwynodd y Cyngor adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 5 Chwefror 2019 ar ei drefniadau diogelu corfforaethol. Yn 2016 a 2017 cyflwynwyd diweddariadau ar gynnydd yn erbyn ein hadroddiad diogelu cynharach i'r Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Archwilio yn y drefn honno, ond nid yw'r Cyngor yn adrodd yn rheolaidd wrth y Pwyllgor Craffu yn erbyn y meini prawf a restrir yn yr argymhelliad hwn.<br>• Dywedodd y Cyngor fod meincnodi'n anodd gan nad oedd set o ddangosyddion y cytunwyd arni'n genedlaethol.<br>• Roedd yr adroddiad ym mis Chwefror 2019 a grybwyllir uchod yn cynnwys mesurau perfformiad ar gydymffurfio â hyfforddiant diogelu ar gyfer staff ac aelodau ar y cyfan, ond nid oedd yr wybodaeth wedi'i dadansoddi yn ôl gwasanaethau ac nid oedd yn cynnwys unrhyw wybodaeth am berfformiad gwiriadau recriwtio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.<br>• Mae'r Cyngor yn ceisio datblygu ei hunanwerthusiadau o wasanaethau er mwyn casglu data mwy gwasanaeth benodol am berfformiad mewn perthynas â diogelu. |

[3] Llywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am ymateb i argymhelliad 5 felly nid yw hwnnw wedi'i gynnwys yma

| Argymhellion o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu’r cyngor. | • Mae’r Cyngor yn monitro perfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynir o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu’r Cyngor trwy ei drefniadau monitro contractau. |
| A7 Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu’r cyngor. | Wedi’i roi ar waith yn rhannol:<br>• Nid yw’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cynnal unrhyw adolygiadau o drefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor.<br>• Roedd Trefniadau Diogelu Corfforaethol yng nghynllun archwilio blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2016-17 ac yn ei gynllun archwilio blynyddol ar gyfer 2018-19, ond disgrifiwyd y gwaith hwn fel ‘ymgynghoriaeth’ yn hytrach na ‘sicrwydd’ ac ni ddeilliodd unrhyw allbwn ysgrifenedig o’r gwaith hwn. Roedd y Rheolwr Archwilio Gweithredol ar yr adeg honno’n rhan o’r Gweithgor Diogelu Corfforaethol.<br>• Mae diogelu’n un o’r nodweddion ar archwiliadau o ysgolion unigol. Roedd trefniadau diogelu Ysgolion a Chymunedol yng Nghynllun Archwilio Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2017-18 ac roedd adolygiad thematig o drefniadau diogelu ysgolion uwchradd yng Nghynllun Archwilio Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2018-19.<br>• Efallai yr hoffai’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ystyried ymgorffori adolygiadau o drefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor, neu agweddau ar y trefniadau hynny, yn ei raglen waith. |
| A8 Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy’n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y cyngor. | Wedi’i roi ar waith yn rhannol, gyda chynnig ar gyfer gwella wedi’i adnabod.<br>• Fe gyflwynodd y Cyngor Gofrestr Risgiau Diogelu Corfforaethol yn 2016 ac mae hon wedi cael ei diweddaru’n ddiweddar.<br>• Mae gan y Cyngor Gynlluniau Cyflenwi Gwasanaethau yn hytrach na chofrestrau risgiau ar lefel gwasanaethau. Mae’r Cyngor wedi dweud bod risgiau i ddiogelu’n cael eu hystyried fel rhan o’r broses hunanwerthuso gwasanaethau, ond ni fydd angen iddynt gael eu cynnwys o anghenraid mewn Cynlluniau Cyflenwi Gwasanaethau. |

| Argymhellion o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | • Dylai'r Gweithgor Diogelu Corfforaethol oruchwylio risgiau diogelu corfforaethol ar draws y Cyngor. |

# Asesiad o’r cynnydd yn erbyn y cynigion ar gyfer gwella o’n hadroddiad yn 2014

| Cynigion ar gyfer gwella yn ein hadroddiad lleol yn 2014 a gyflwynwyd i’r Cyngor ym mis Hydref 2014. | | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|---|
| C1 | Datblygu Polisi Diogelu Corfforaethol sy’n nodi’n glir beth yw’r rolau, cyfrifoldebau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu | Gweler y naratif yn erbyn argymhelliad 2 uchod |
| C2 | Sicrhau bod yr holl risgiau i ddiogelu’n cael eu hadnabod; sicrhau bod risgiau ar lefel gorfforaethol ac ar lefel gwasanaethau’n cael eu hintegreiddio; a chytuno ar gamau gweithredu i liniaru’r rhain | Gweler y naratif yn erbyn argymhelliad 8 uchod |
| C3 | Gwella ystod, ansawdd a chwmpas y broses o adrodd ar berfformiad ym maes diogelu i ddarparu sicrwydd digonol bod systemau’n gweithio’n effeithiol | Gweler y naratif yn erbyn argymhelliad 6 uchod . |
| C4 | Sicrhau bod yr holl aelodau etholedig a staff sy’n dod i gysylltiad â phlant yn rheolaidd yn cael hyfforddiant ar faterion diogelu ac amddiffyn plant a pholisi corfforaethol y Cyngor ar ddiogelu | Gweler y naratif yn erbyn argymhelliad 4 uchod . |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru